Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

Trawsnewid Addysg, Trawsnewid Bywydau

Transforming Education, Transforming Lives

Trawsnewid Addysg, Trawsnewid Bywydau
Transforming Education, Transforming Lives

www.uwtsd.ac.uk

ECAD4017

- Ieithoedd, Llafar a Chyfathrebu
- Darlith 2 ~ Darllen

Trosolwg o'r gyfres o ddarlithoedd

Rhan 1
- Llafar
- Syniadau

Rhan 2
- Darllen
- Syniadau

Rhan 3
- Ysgrifennu
- Syniadau

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
University of Wales Trinity Saint David
Yr Athrofa Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales
APLP PDPA
Trawsnewid Addysg, Trawsnewid Bywydau
Transforming Education, Transforming Lives

Nod y ddarlith



- codi eich ymwybyddiaeth am lyfrau Cymraeg i blant;
- ystyried pwysigrwydd darllen straeon yn y dosbarth;
- ystyried **sut** i ddefnyddio llenyddiaeth wrth ddatblygu sgiliau
- ystyried **sut** i ddatblygu sgiliau darllen y disgyblion.

Cwricwlwm i Gymru
Mae'r adran ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu o'r Cwricwlwm 2022 wedi ei rannu i bedwar

Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig

1	2	3	4
Mae ieithoedd yn ein cysylltu â'n gilydd.	**Mae deall ieithoedd yn allweddol i ddeall y byd o'n hamgylch.**	**Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu**	**Mae llenyddiaeth yn tanio'r dychymyg ac yn ysbrydoli creadigrwydd.**

Datblygu sgiliau darllen

Dylid ystyried yn holistaidd y pedwar datganiad sy'n nodi'r hyn sy'n bwysig yn y Maes hwn. Golyga hyn y dylid archwilio gwahanol ieithoedd mewn perthynas â'i gilydd, yn ogystal â sgiliau gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu. Golyga hyn hefyd y dylid ystyried dysgu am a thrwy lenyddiaeth fel rhywbeth sy'n cyfrannu at holl agweddau dysgu am ieithoedd. Mae'r datganiadau yn cefnogi a chadarnhau'i gilydd. Gyda'i gilydd maen nhw'n cyfrannu at wireddu pedwar diben y cwricwlwm.



Llywodraeth Cymru (2020) Canllawniau Cwricwlwm i Gymru.

Datganiad o'r hyn sy'n bwysig

Cam cynnydd 1



Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Rwy'n gallu ymuno â chaneuon, rhigymau, straeon a cherddi cyfarwydd.

Rwy'n gallu ailadrodd straeon.

Rwy'n gallu ymateb yn greadigol i'r ystod o lenyddiaeth rwy'n ei chlywed, ei ddarllen neu'n ei weld.

Mae llenyddiaeth yn tanio'r dychymyg ac yn ysbrydoli creadigrwydd.

Meysydd dysgu a phrofiad



Llywio'r fframwaith Cwricwlwm i Gymru
ADDYSG CYMRU EDUCATION WALES
pedwar diben
dysgwyr uchelgeisiol, galluog
cyfranwyr mentrus, creadigol
dinasyddion egwyddorol, gwybodus
unigolion iach, hyderus
Cynllunio eich cwricwlwm
Cynnydd ac Asesu
Y Celfyddydau Mynegiannol
Iechyd a Lles
Y Dyniaethau
Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
Mathemateg a Rhifedd
Gwyddoniaeth a Thechnoleg
Themâu trawsgwricwlaidd
Amrywiaeth
Addysg gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith
Cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol
Sgiliau cyfannol
Creadigrwydd ac arloesi
Meddwl yn feirniadol a datrys problemau
Effeithiolrwydd personol
Cynllunio a threfnu
Fframwaith Llythrennedd
Fframwaith Rhifedd
Fframwaith Cymhwysedd Digidol
Y daith i weithredu'r cwricwlwm

Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu



Fframwaith Llythrennedd - Darllen

Llythrennedd: Darllen

Cam cynnydd 1	Cam cynnydd 2	Cam cynnydd 3
Ymwybyddiaeth ffonolegol a ffonemeg		
Rwy'n gallu gwahaniaethu seiniau, chwarae â seiniau a thrin seiniau o fewn fy amgylchedd ac o fewn geiriau.		–
Rwy'n gallu defnyddio rhythm, odl, cyflythrennu, sillafau, a rhannu dechrau a diwedd gair er mwyn dysgu darllen.		–
Rwy'n dechrau gwahaniaethu ffonemau rwy'n eu clywed mewn gwahanol safleoedd, *e.e. seiniau cychwynnol, llafariaid canol, seiniau terfynol mewn geiriau llafar.*	Rwy'n gallu cyfuno ffonemau yn awtomatig ac yn dawel.	–
Rwy'n dechrau datblygu'r hyn rwy'n ei wybod am gyfatebiaeth graffemau (llythrennau ysgrifenedig)–ffonemau (seiniau llafar).	Rwy'n gallu defnyddio cyfatebiaethau graffem–ffonem wrth ddarllen.	–
Rwy'n dechrau cyfuno ffonemau wrth ddarllen ar goedd.		–

[Fframwaith Llythrennedd](#)

Llythrennedd: Darllen

Cam cynnydd 1	Cam cynnydd 2	Cam cynnydd 3
Strategaethau darllen		
Rwy'n gallu dangos diddordeb mewn llyfrau a deunyddiau darllen eraill, ac rwy'n mwynhau eu rhannu a'u defnyddio fel darllenydd, *e.e. dal llyfrau yn y ffordd gywir a throi tudalennau.*	Rwy'n gallu dewis fy neunydd darllen fy hun ar sail diddordeb neu ddiben.	Rwy'n gallu darllen testunau cymhleth yn annibynnol am gyfnodau estynedig.
Rwy'n gallu segmentu cyfuniadau o lythrennau cyfarwydd ar lafar.		Rwy'n gallu darllen geiriau a brawddegau o wahanol destunau gan ddefnyddio ystod o strategaethau i bennu ystyr.
Rwy'n gallu deall bod perthynas un i un rhwng y gair ysgrifenedig a'r gair llafar.	Rwy'n gallu darllen gwahanol destunau gan ddefnyddio ystod o strategaethau i bennu ystyr, gan gynnwys: • ffoneg • gwreiddiau geiriau a'u teuluoedd • strwythur brawddegau ac atalnodi • strwythur a threfn testunau • gwybodaeth flaenorol am gynnwys a chyd-destun.	Rwy'n gallu defnyddio ystod o strategaethau i bennu ystyr geiriau a brawddegau, gan gynnwys: • yr hyn rwy'n ei wybod am ffoneg • gwreiddiau geiriau • teuluoedd geiriau • cystrawen • trefn testunau • gwybodaeth flaenorol am gyd-destun.

Llythrennedd: Darllen

Cam cynnydd 1	Cam cynnydd 2	Cam cynnydd 3
Deall, ymateb a dadansoddi		
Rwy'n dechrau darllen yn ôl yr hyn rwyf wedi ei ysgrifennu.	Rwy'n gallu darllen ar goedd gyda mynegiant, gan roi sylw i atalnodi, gan gynnwys atalnodau llawn, gofynodau, ebychnodau a dyfynodau, gan amrywio goslef, llais a chyflymder.	Rwy'n gallu darllen amrywiaeth eang o destunau ar goedd gyda mynegiant, gan amrywio goslef, llais a chyflymder.
Rwy'n dechrau dod yn ymwybodol o atalnodau llawn wrth ddarllen.		Rwy'n gallu deall sut y gall atalnodi amrywio, gan effeithio ar strwythur brawddegau ac ystyr, e.e. *Ces i afal, cracer a chaws i de*.
Rwy'n gallu defnyddio cyd-destun a lluniau i'm helpu i ddeall yr hyn rwy'n ei ddarllen, gan ychwanegu manylion at fy esboniadau.	Rwy'n gallu adnabod y pwnc/thema a dangos fy nealltwriaeth o brif syniadau'r testun.	Rwy'n gallu adnabod syniadau a gwybodaeth sydd o ddiddordeb i mi er mwyn datblygu fy nealltwriaeth ymhellach.
Rwy'n gallu datblygu fy ngeirfa trwy ddarllen, a defnyddio'r geiriau newydd hyn mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd.	Rwy'n gallu datblygu fy ngeirfa drwy ddarllen fy hun a chael eraill i ddarllen i mi.	Rwy'n gallu darllen er mwyn adeiladu fy ngeirfa a strwythurau brawddegau, gan ddefnyddio'r rhain wrth i mi gyfathrebu.

Munud i feddwl

Faint
o awduron llyfrau
plant fedrwch chi eu henwi?

Manon Steffan Ros

Angharad Tomos

T Llew Jones

Myrddin ap Dafydd

Mererid Hopwood

Bethan Gwanas

Elin Meek

Haf Llywelyn

Emily Huws

Llyfrau a mwy …

- Llyfrgelloedd: yn y Brifysgol/ yn eich ardal leol
- Siopau llyfrau lleol / siopau ar-lein gan weisg unigol
- Catalogau llyfrau
- Cyngor Llyfrau Cymru

- https://www.google.co.uk/url?sa=t&rct=j&q=&esrc=s&source=web&cd=&cad=rja&uact=8&ved=2ahUKEwiys6HMgYX6AhUshv0HHfd_CI0QFnoECAQQAQ&url=https%3A%2F%2Fllyfrau.cymru%2Fen%2F&usg=AOvVaw2cLyrW4nxTrQmUTgjuIWys
- Prynu llyfrau: https://www.google.co.uk/url?sa=t&rct=j&q=&esrc=s&source=web&cd=&cad=rja&uact=8&ved=2ahUKEwjD_tb5gYX6AhX_gP0HHZ7sDD0QFnoECAIQAQ&url=https%3A%2F%2Fwww.gwales.com%2F&usg=AOvVaw18PkzFVCDQaJPQEZRTPcuo
-
- Ar-lein: Llenyddiaeth Cymru https://www.google.co.uk/url?sa=t&rct=j&q=&esrc=s&source=web&cd=&cad=rja&uact=8&ved=2ahUKEwiZqaug3IPzAhXQA2MBHZPLA9QQFnoECAwQAw&url=https%3A%2F%2Fwww.llenyddiaethcymru.org%2F&usg=AOvVaw

Darllenwch!

Mae llenyddiaeth yn tanio'r dychymyg ac yn ysbrydoli creadigrwydd.



Yn y cyfnodau cynnar, mae dysgu darllen yn **ddibynnol ar yr iaith lafar** sydd gan ddysgwyr. Felly mae **datblygu sgiliau gwrando a siarad da yn angenrheidiol i lwyddo wrth ddysgu darllen.**



Gall dysgwyr ifanc fod yn gyfarwydd â llyfrau stori, hwiangerddi a phrint wrth iddyn nhw ddechrau addysg ffurfiol. Bydd rhai wedi dechrau adnabod llythrennau unigol a geiriau.

Adrodd stori



- Nid rhywbeth newydd yw'r grefft o adrodd stori.
- Mae'n filoedd o flynyddoedd oed gyda phobl yn mwynhau diddanu ei gilydd drwy adrodd stori.
- Gall bobl fwynhau rhannu stori, action stori neu berfformio stori.
- Mae gan bob cenedl ei thraddodiad ei hun ac mae'r traddodiad hwnnw wedi newid ac esblygu dros y canrifoedd.

Munud i feddwl …

Pa fathau gwahanol o ddarllen sy'n digwydd mewn dosbarthiadau?



Math?	Pwy sy'n darllen?	Faint o ddisgyblion?	Lefel ddarllen?	Pa mor aml?	Amrywiaeth testun?	Pwrpas?
Stori dosbarth	Athro	Dosbarth gyfan	Gall fod llawer yn uwch os yw'r testun yn ddiddorol	Dyddiol yn ddelfrydol, diwedd dydd?	Llawer o ffuglen ond ffeithiol hefyd	Athro yn modelu y broses ddarllen ac i'r disgyblion fwynhau
Darllen ar y cyd	Athro	Dosbarth gyfan	Ychydig yn uwch na lefel y disgyblion	Cyson	Ffuglen neu ffeithiol	Modelu sgiliau darllen penodol
Darllen grŵp dan arweiniad	Athro neu ddisgybl	3 – 6 disgybl	Ar lefel y disgybl neu'n uwch	Cyson	Pob math	Nod yw bod y disgybl yn darllen yn rhugl gan ddadansoddi
Darllen pâr	Athro a disgybl	2 ddisgybl	Ar lefel y disgybl neu'n uwch	Cyson	Pob math	Trafod cynnwys a geiriau anghyfarwydd
Darllen annibynnol	Disgybl unigol	1 disgybl	Lefel darllen y disgybl	Mor aml a phosib	Amrywiaeth o lenyddiaeth	Disgybl yn gallu ymarfer ac i ddatblygu hoffter o lyfrau

Grwpio yn unol â gofynion y dasg …

mewn rhesi wrth fwrdd



mewn parau wrth fwrdd



mewn grŵp wrth fwrdd



Y dosbarth cyfan
mewn siâp pendol



Mewn un cylch mawr
ar y llawr neu ar
gadeiriau

Munud i feddwl…

Pam bod darllen i ddisgyblion yn y Dysgu Sylfaen yn bwysig?

Pam bod darllen i ddisgyblion yn y Dysgu Sylfaen yn bwysig?

- Mae'n gyfle i fodelu **sut** mae darllen.
- Modelu beth yw darllen da. (Mae'n sgíl sy'n rhaid ei hymarfer)
- Cyfle i gyflwyno geiriau / ymadroddion / idiomau newydd.
- Ffordd dda o ddatblygu sgiliau Gwrando.
- Ffordd dda o ddatblygu sgiliau Llafaredd.
- Ffordd dda o drafod a datblygu syniadau newydd.
- Ffordd dda o gyflwyno testunau newydd.

Mae hi'n amser stori …

Gwyliwch recordiad o "Amser Stori" (gan Ganolfan Peniarth) o Mari Grug yn darllen stori.

Wedi i chi wylio'r ffilm, ystyriwch:

Grwp 4:
https://youtu.be/5bRe2UNp07I

- Beth mae hi'n ei ddarllen?
- Sut mae hi'n darllen?
Sut mae hi'n defnyddio ei llais?
Pa naws sydd i'r "Amser stori"?
- Pe bai Mari Grug yn darllen o flaen dosbarth o blant, beth fyddai hi'n ei wneud yn wahanol?
- Yn eich barn chi, beth sy'n gwneud storïwr da?

Dewch i eistedd ar y mat

(London Bridge is falling down)

Dewch i eistedd ar y mat,

Ar y mat, ar y mat,

Dewch i eistedd ar y mat,

i ddarllen stori.

BLE?

PRYD?

PAM?

Defnyddio llyfr stori fel sbardun

Ydy'r llyfr stori / testun yn addas i'r oed / dosbarth dan sylw?

Ydy'r llyfr stori / testun yn cynnig digon o gyfleoedd i ddatblygu sgiliau iaith?

Ydy'r llyfr stori / testun yn mynd i apelio at blant y dosbarth?

Ydy'r llyfr stori / testun yn cynnig digon o cyfleoedd i ddatblygu sgiliau traws gwricwlaidd?

Ydy'r llyfr stori / testun wedi cael ei ysgrifennu'n dda?

Mae hi'n amser stori …
Cyfle i ddatblygu syniadau newydd
Cyfle i ymlacio!
Cyfle i ddysgu geiriau newydd
Cyfle i fwynhau
Naws arbennig
Cyfle i drafod syniadau
Cyfle i fynegi barn

Datblygu sgiliau darllen unigol …



Awdures:
Eirian Lloyd Jones

Pam y teitl, Tric a Chlic?

Yn syml, mae **tric** mewn rhai geiriau ac mae angen **clic** y camera i gofnodi geiriau aml ddefnydd yn y cof.

Cynllun yw hwn sy'n addysgu sgiliau ffoneg synthetig sy'n sail i addysgu darllen ac sydd felly yn:

addysgu sain a ffurf llythrennau

addysgu strategaethau adeiladu i ddarllen a thorri geiriau i sillafu

annog rhuglder a mynegiant wrth ddarllen o'r dechrau un

cynnig dulliau addysgu rhyngweithiol

atgyfnerthu'r camau yn rheolaidd

symud yn gyflym o un cam i'r llall

PWYSIG Dylid sicrhau bod y disgyblion wedi cael profiadau o wrando, clywed ac arbrofi ag amrywiaeth o synau a seiniau gan ddatblygu eu sgiliau gwrando cyn dechrau gweithredu.



Eglurir y camau cyflwyno gam wrth gam yn y llawlyfr hwn sef:

- Addysgu dosbarth cyfan – sesiynau byr dyddiol oddeutu 5 - 10 munud.
- Sesiynau grŵp ffocws rheolaidd gan ddilyn y camau yn hwyliog a byrlymus. Ni ddisgwylir i athro gyflawni pob cam o fewn un sesiwn – dibynna hynny ar afael y disgyblion o'r strategaeth.
- Ymgorffori'r sgiliau a addysgir wrth gynllunio i gyfoethogi'r ddarpariaeth / y ddarpariaeth barhaus a cheir rhestr o weithgareddu enghreifffftiol ar ddiwedd y nodiadau yma. (Tudalen 23 - 24)

COFIWCH nid cynllun i'w weithredu mewn gwagle yw Tric a Chlic. Mae'n bwysig <u>defnyddio'r strategaethau yn gyson a rheolaidd</u> ym mhob agwedd o waith, e.e. adeiladu geiriau wrth fodelu darllen; defnyddio'r bysedd i dorri geiriau; defnyddio bocsys yn gymorth wrth gofnodi a.y.b.

Beth sydd yn y cynllun?

Y Lefelau

(geiriau c-ll-c, *cytsain - llafariad - cytsain*)

Dyma'r drefn o gyflwyno'r llythrennau:

Melyn	m-a-p-h-t-e-c-r + y
Glas	th-n-b-g-w-l-o-s
Gwyrdd	ch-d-i-ll-u
Pinc	j-f-dd-ff-rh
Llwyd	acen grom
Lelog	Treigliadau ng/ph/mh/nh



Sut mae'r cynllun yn gweithio? Sesiwn dosbarth cyfan:

Sesiwn dosbarth – cyflwyno llythrennau un llythyren ar y tro.

Dysgu ynganu.

Adnabod y llythyren.

Ffurfio'r llythyren yn gywir, e.e. yn yr awyr.

Defnyddio'r cardiau "Syllu ar y sêr"

Dysgu darllen geiriau: m-a-m

Disgyblion i ddangos 3 bys i gyfleu tri swn / tair sain

Dysgu mwy o seiniau yn ddyddiol er mwyn medru darllen mwy o eiriau.

Dechrau arni …

https://youtu.be/VBoQgs3rsNw



Cam 1

Cam 2



Cam 3



Sut mae'r cynllun yn gweithio? Sesiwn grŵp:

- Atgyfnerthu sain y llythrennau.
  (Gellir defnyddio 'Cardiau Ymarfer Seiniau').
- Adeiladu geiriau 3 llythyren (cytsain-llafariad-cytsain)
  Trafod y sain gyntaf / sain olaf / sain ganol.
- Symud seiniau – e.e. car = cap
- Darllen a sillafu geiriau..
- Darllen grwp / pâr – Llyfrau geiriau Tric a Chlic

Beth nesaf?

Parhau i ddarllen grwp



Datblygu i fod yn ddarllenwr annibynnol sy'n datblygu sgiliau darllen unigol

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David
Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales
APLP
PDPA
Trawsnewid Addysg, Trawsnewid Bywydau
Transforming Education, Transforming Lives

Dull Pie Corbett …

Storytelling and story-making

The idea of story-making was initially developed with my colleague, Mary Rose, through a teacher research project based at the International Learning and Research Centre in South Gloucestershire, funded by what was known as the DFES *Innovations* unit. We explored the use of storytelling as a tool for helping children build up a bank of narrative patterns that they could then call upon when they wish to create their own stories.

The idea is quite simple. The first stage is for children each year to learn to tell orally a bank of stories, for example, *The Gingerbread Man* in Reception and then another ten in Year 1. This means that they enter Year 2, knowing up to 20 stories. Thereafter they might work with one story every half-term, therefore acquiring a bank of about 50 stories across the primary years. These stories would come from the wide range of cultures in our diverse society.

Dull Pie Corbett … sut i addysgu'r storïau i'r plant?

- Dewiswch stori rydych chi'n ei hoffi a bydd y plant yn ei mwynhau.
- Rhaid dweud y stori wrth y disgyblion bob dydd, efallai, sawl gwaith y dydd.
- Wrth ddweud y stori, bydd angen defnyddio symudiadau a map stori.
- Does dim rhaid cymryd amser hir iawn i wneud hyn – mae treulio ychydig o funudau'n ddyddiol yn gweithio'n effeithiol iawn.
- RHAID ei dweud yn ddyddiol gan mai'r nod ydy bod y disgyblion yn dysgu'r stori ar eu cof. (Bydd hyn yn gallu cymryd rhai wythnosau).
- Ar ôl dweud y stori unwaith, ewch ati i dynnu llun map (gallwch wneud hyn gyda'r disgyblion neu o flaen llaw).
- Pwrpas y map stori ydy cyfleu'r stori'n weledol.
- (Ar ôl i chi ddefnyddio'r map gyda'r disgyblion, gallan nhw greu eu map stori eu hunain. Gall y plant ieuengaf gopïo eich un chi a gall y plant hyn greu un ei hunain o'u cof).
- Tra eich bod yn dweud y stori, drwy ddefnyddio'r map, defnyddiwch symudiadau corfforol hefyd.

Dull Pie Corbett … sut i addysgu'r storïau i'r plant?



Tasg ymarferol!

Dull Pie Corbett … y symudiadau

https://youtu.be/av1ZyVH2Qpw

https://youtu.be/JdvJZD-cplg

https://youtu.be/5QrxgAa8qds

https://youtu.be/rDMmudDSGU0

Dull Pie Corbett … y nod



Ar ôl dysgu stôr o straeon o'r dosbarth Derbyn, y
nod yn y pendraw, yw bod
y disgyblion yn medru ysgrifennu'r stori maen yn ei dysgu a hynny yn eu
geiriau eu hunain.

Nod pellach y
dull hwn yw bod disgyblion yn dysgu addasu straeon cyfarwydd ar ôl
dysgu stori ar ycof. Gallan nhw wneud hyn drwy newid manylion o'r sto
ri, e.e.
y cymeriadau / newid safbwynt / ychwanegu gwybodaeth / newid y
diweddglo, a.y.y.b

Felly, ydych chi'n cofio …
pam bod darllen i ddisgyblion y Dysgu Sylfaen yn yn bwysig?

- Mae'n gyfle i fodelu **sut** mae darllen.
- Modelu beth yw darllen da. (Mae'n sgíl sy'n rhaid ei hymarfer)
- Cyfle i gyflwyno geiriau / ymadroddion / idiomau newydd.
- Ffordd dda o ddatblygu sgiliau Gwrando.
- Ffordd dda o ddatblygu sgiliau Llafaredd.
- Ffordd dda o drafod a datblygu syniadau newydd.
- Ffordd dda o gyflwyno testunau newydd.



'Guided reading' is a commonly used term across the English-speaking world to describe the teaching of reading in small groups. The approach originated in the 1960s in New Zealand (Simpson, 1966) to accompany a newly published set of early reading books.

It was introduced in England in 1998 through the National Literacy strategy and became a recognized feature of literacy lessons throughout primary school.

Supercharged literacy and language learning.

[Giglets]

An accessible and engaging platform of curriculum-aligned online literacy resources and multilingual texts, for children aged 3-14.

What is Giglets? | Book a Demo

★★★★★ 4.6/5 from 29 reviews on edtech impact

100K+ Pupils

40K+ Superhero Teachers

1,500+ Engaging Texts

38+ Languages

Beth yw Giglets?

"Shared reading is an essential step in the effective teaching of writing. In the course of reading a shared text with a class, you can, as well as focusing on teaching them how to read this text, also teach a deal about how the text is structured. A highly developed familiarity with the structure of a text is necessary if children are subsequently to write texts like this themselves."

Medwell et al.(2014)



atebol

Amser stori: Sianel Youtube Atebol

720 ★★★☆☆ (1)

Hwb



Antur Anhygoel Caleb a Moc - Llyfrau Llafar

2,546

BBC Sounds - Stori Tic Toc - Cyfres o straeon Cymraeg i ddysgwyr

1,459 ★★★★☆ (1)

CYMRAEG I Blant For Kids

Cymraeg i blant - cyflwyno'r Gymraeg i blant drwy stori a chân

1,877



Coeden Ddarllen Rhydychen - Llyfrau Cam 3

30,614

Y Llewpart a'i Smotiau - Llyfrau Llafar

3,316

Darllenwch!





Tasg 1
Crewch map meddwl gan nodi'r gweithgareddau ieithyddol gwahanol gellir gwneud yn gysylltiedig â'r stori.

Tasg 2
Dewiswch un o'r gweithgareddau ac ewch ati i greu 'model'.